



SWYDDOG DISGYBLU A CHŴYNION

Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes
Contract cyfnod penodol o 6 mis (i'w adolygu),
22.2 awr (3 diwrnod) yr wythnos (i'w adolygu)

Gradd GTAGC 09 £40,221 i £43,421 y flwyddyn (pro rata)

Rydym yn awyddus i benodi Swyddog Disgyblu a Chwŷnion i ymuno â'r Uned Adnoddau Dynol a Chefnogi Busnes yn y Pencadlys yn Llanellwyr (gyda rhywfaint o weithio ystwyth os gofynnir amdano).

Drwy gynnal ymchwiliadau trylwyr, effeithlon a theg, byddwch yn gyfrifol am ddarparu adroddiadau manwl, diduedd i gefnogi penderfyniadau rheolwyr mewn perthynas â materion disgyblu a chwŷnion. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth a data, cynnal cyfweiliadau a chadw cofnodion cyfrinachol cywir. Byddwch yn gyfrifol am baratoi dogfennaeth ar gyfer gwrandawiadau mewnol ac allanol yn ôl yr angen, a'u cyflwyno yn y gwrandawiadau. Bydd y dyletswyddau gweinyddol cysylltiedig yn cynnwys drafftio llythyrau, paratoi datganiadau ac adroddiadau.


Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau cyflwyno da, gyda phrofiad o gyfweild ac â'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth, crynhoi manylion a chyflwyno adroddiadau ffurfiol. Bydd gennych wybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer da a sgiliau trefnu rhagorol i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chwrdd â therfynau amser. Bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod i addasu i newid er mwyn delio â cheisiadau wrth iddyn nhw godi a bydd angen i chi allu gweithio'n annibynnol ac o'ch pen a'ch pastwn eich hun.

Sylwch fod y swydd hon yn destun Gwiriad DBS a geir daon boddhaol. I gael manylion pellach ynglŷn â'r rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: hrdesk@northwalesfire.gov.wales

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd, 07/05/2024

Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni fydd unrhyw eithriadau.



Ddylai neb deimio'n ofnus gartre
Mae help ar gael, ddydd a nos



Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwngwyo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, allbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.